CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

THE READING AGENCY | Dathlu creadigrwydd | Celebrating creativity | CREATE

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Taflen weithgaredd Dere i Dyfu!

## Dyluniwch eich pot planhigion eich hun a thyfwch eich blodau eich hun!

### Bydd angen:

- Potiau planhigion bioddiraddadwy (gellir eu prynu mewn siopau garddio)
- Pridd amlbwrpas (gofynnwch i riant neu warcheidwad)
- Paent acrylig
- Brwshys paent
- Dŵr
- Hadau blodau sy'n blodeuo yn yr haf (gofynnwch i riant neu warcheidwad)

1. Yn gyntaf, gosodwch hen bapur newydd ar fwrdd a rhowch eich paent, brwsys paent, cwpanaid o ddŵr, a'ch potiau ar ei ben.
2. Dechreuwch beintio'ch pot planhigion gyda lluniau a lliwiau ffynci — gorau po fwyaf disglair!
3. Gadewch eich potiau i sychu am tua 2 awr.
4. Llenwch eich potiau planhigion addurnedig â phridd hyd nes ei fod yn ¾ llawn.
5. Ychwanegwch eich hadau blodau ac yna gorchuddiwch â mwy o bridd.
6. Rhowch ddŵr i'ch hadau yn ofalus (dim gormod).
7. Rhowch eich potiau planhigion mewn man heulog — fel silff ffenestr neu'r tu allan.
8. Rhowch ddŵr i'ch hadau bob yn ail ddiwrnod (neu bob dydd, os ydynt yn llygad yr haul)
9. Mwynhewch wylio'ch blodau'n tyfu dros yr haf.
10. Ailddefnyddiwch eich potiau planhigion dro ar ôl tro.

